


**Crynodeb o Adroddiad Ymchwiliad:**

## Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

# FFILMIO YNG NGHAERDYDD - CRYNODEB

**Ionawr 2025**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor**

**Caerdydd**

# CYNNWYS

CYNNWYS .... 2
RHAGAIR .... 3
CYLCH GORCHWYL .... 4
Y DULL A DDEFNYDDIWYD .... 5
PRIF GANFYDDIADAU .... 7
ARGYMHELLION .... 12
Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant .... 15

# RHAGAIR

*Pan ddechreuon ni'r Ymchwiliad hwn, rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod ein ffocws ar y ffordd orau o gydbwyso costau ffilmio gyda'r manteision y mae ffilmio yn eu cyflwyno i Gaerdydd; roedden ni'n awyddus i ddeall a ellid lleihau costau i'r Cyngor, ac felly trigolion Caerdydd, heb leihau'r manteision economaidd a diwylliannol diamheuol y mae ffilmio yn eu cyflwyno i Gaerdydd a'r rhanbarth.*

*Ein casgliadau yw bod angen cydbwysedd rhwng denu a chynnal ffilmio a lleihau costau. Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar wella cynnig y Cyngor i ddenu mwy o ffilmio, drwy wella'r wybodaeth a roddir i'n rhanddeiliaid, cryfhau cydweithio, archwilio arfer da mewn marchnata a hyrwyddo, deall gwaith rhanbarthol ar gridiau gwyrdd safleoedd unedau ac ystyried a allai adeiladau'r Cyngor gynnig lle ar gyfer safleoedd cynhyrchu. Yn bwysig iawn, rydyn ni'n argymell bod y Cabinet yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn y Swyddfa Ffilm ac yn Rheoli Rhwydwaith.*

*Gwnaethon ni elwa'n fawr o'r dystiolaeth a roddwyd gan y rhai sy'n gweithio fel rheolwyr lleoliad, rheolwyr cynhyrchu a rheolwyr llinell – yma ac mewn mannau eraill – a rannodd eu barn a'u profiadau gyda ni ac a gyflwynodd gynigion gyda'r nod o annog a chynnal ffilmio tra'n cydnabod y cyllidebau amrywiol iawn sydd ar gael i wahanol gynyrchiadau – mae ein hargymhellion, i archwilio cyflwyno cerdyn ardrethi ar gyfer lleoliadau cyngor wedi'i haenu yn ôl cyllideb gynhyrchu ac archwilio cyfundrefn ffioedd a thaliadau ar wahân ar gyfer busnes ailadroddus hirdymor, yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn a wnaed gan lawer o gyfranwyr yn uniongyrchol.*

*Roedden ni'n falch iawn o glywed adborth mor gadarnhaol am ein Swyddfa Ffilm ac am y profiad cyffredinol o ffilmio yng Nghaerdydd. Rydyn ni'n cystadlu ag awdurdodau lleol eraill – mae angen i ni sicrhau bod Caerdydd yn parhau i gynnig amgylchedd deniadol a chroesawgar ar gyfer ffilmio fel bod y nifer o drigolion a busnesau yng Nghaerdydd sy'n gweithio yn y sector hwn neu'n elwa o'r sector hwn yn parhau i ffynnu.*

*Hoffwn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr Ymchwiliad hwn, gan rannu eu gwybodaeth, eu hamser a'u meddyliau mor hael – rhaid sôn yn arbennig am Rhys Bidder am wahodd y grŵp gorchwyl ar y set i brofi'n uniongyrchol y gwaith a wnaed i alluogi ffilmio ac i leihau ei effaith ar drigolion, busnesau lleol ac asiantaethau. Hoffwn i hefyd ddiolch i'm cyd-aelodau ar yr Ymchwiliad hwn – y Cynghorydd Jenkins, y Cynghorydd Lewis a'r Cynghorydd Shimmin – am eu gwaith a'r swyddogion craffu a gefnogodd yr Ymchwiliad hwn – Angela Holt a Gladys Hingco.*



**Y Cynghorydd Peter Wong**
**Cadeirydd, Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant**
**Ionawr 2025**

# CYLCH GORCHWYL

1. Archwilio sut y gall Cyngor Caerdydd annog a hwyluso ffilmio yng Nghaerdydd, gwella cynhyrchu incwm, lleihau costau cysylltiedig, a gwneud y mwyaf o'r manteision i bobl leol a'r economi leol, drwy:

    a. Archwilio gweithrediadau Uned Ffilm Caerdydd, gan ganolbwyntio ar:
        i. y model busnes a'r sefyllfa ariannol bresennol
        ii. tueddiadau data cwsmeriaid gan gynnwys ymholiadau ffilmio a thrwyddedau ffilmio
        iii. barn cwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid.

    b. Archwilio modelau darparu asiantaethau ac unedau ffilm awdurdodau lleol eraill sy'n darparu'r gwasanaeth hwn i awdurdodau lleol.

    c. Ceisio mewnbwn gan randdeiliaid allweddol a phartïon â diddordeb, gan ddysgu o'u gwybodaeth a'u profiad o ffilmio yng Nghaerdydd ac mewn mannau eraill.

2. Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr Ymchwiliad i wneud argymhellion ar sail tystiolaeth i'r Cabinet ynghylch y ffordd orau o gynyddu manteision ffilmio yng Nghaerdydd.

# Y DULL A DDEFNYDDIWYD

M1. Cynhaliodd yr Aelodau'r Ymchwiliad hwn rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025.

M2. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb:

- Y Cynghorydd Jennifer Burke - Aelod Cabinet - Diwylliant, Parciau a Digwyddiadau
- Ken Poole - Pennaeth Datblygu Economaidd
- Ruth Cayford – Rheolwr Gweithredol - Diwydiannau Creadigol a Diwylliant
- Jon Day - Rheolwr Gweithredol - Twristiaeth a Buddsoddi
- Claire Moggridge – Pennaeth Trafnidiaeth

M3. Cyfarfu Swyddogion Craffu â Sarah Howells, Swyddog Ffilm Caerdydd, ac Ali Yassine, Rheolwr Ffilm Caerdydd, i ddysgu mwy am eu gwaith ac i glywed eu barn a'u profiadau. Rhannwyd gwybodaeth berthnasol gyda'r grŵp gorchwyl.

M4. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth hefyd gan y rhanddeiliaid allanol canlynol a fynychodd gyfarfodydd gyda'r grŵp gorchwyl:

- Idris Ahmed – Rheolwr Lleoliad
- Rhys Bidder - Rheolwr Lleoliad
- Julian Davies – Rheolwr Lleoliad Cyfres, Casualty
- Hannah James Johnson – Rheolwr Lleoliad
- Jason Keatley – Rheolwr Lleoliad
- Adam Knopf – Rheolwr Lleoliad
- Rachel Slater – Cynhyrchydd Llinell, Casualty
- Lee Walters – Prif Swyddog Gweithredol, Ffilm Cymru.

M5. Ysgrifennodd yr Aelodau at nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnig cyfle iddynt roi eu barn i'r Ymchwiliad. Cafwyd ymatebion gan:

- Boom Cymru – Marged Llŷr-Griffiths
- Cymru Greadigol/ Sgrîn Cymru - Penny Skuse
- Screen Alliance Wales – Allison Dowzell.

M6. Ar wahoddiad Rhys Bidder, ymwelodd yr Aelodau â lleoliad ffilmio yng nghanol Caerdydd, gan weld drostynt eu hunain y gwaith sy'n cael ei wneud i alluogi ffilmio, gan gynnwys cyfarfod â Steve Hyatt a Matt Harrison i ddeall eu gwaith ar lawr gwlad ar ran y Cyngor i gynorthwyo gyda chau ffyrdd, trefniadau parcio a materion eraill sy'n codi ar y safle, fel rheoli anghenion trigolion, busnesau, a gwasanaethau eraill y Cyngor, fel casglu gwastraff.

M7. Comisiynodd yr Aelodau Ymchwil Graffu i gynnal adolygiad o swyddfeydd ffilm awdurdodau lleol yng Nghaerfaddon, Bryste, Enfield, Lerpwl a Manceinion. Mae'r adroddiad llawn wedi'i atodi yn Atodiad 1.

M8. Yn ogystal â'r uchod, ystyriodd yr Aelodau wybodaeth ar system gwynion a chanmoliaeth y Cyngor (Halo), gwybodaeth a roddwyd gan swyddogion Datblygu Economaidd a swyddogion Rheoli Rhwydwaith ynghylch costau cau ffyrdd mewn awdurdodau lleol eraill dethol, ynghlwm yn Atodiad 2, gwybodaeth am ffilmio a gasglwyd o wefannau Cyngor Dinas Birmingham, Cyngor Dinas Bryste, Cyngor Caerdydd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Casnewydd, a Chyngor Bro Morgannwg, yn ogystal â'r Swyddfa Ffilm, a sefydliadau eraill y nododd tystion ei bod yn dda ffilmio gyda nhw, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cadw, Prifysgol Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a Chyfoeth Naturiol Cymru.

M9. Er mwyn llywio'r Ymchwiliad, cafodd yr Aelodau adroddiadau briffio cyn pob cyfarfod. Mae'r adrannau perthnasol wedi'u cyfuno yn yr adroddiad.

M10. Defnyddiwyd y dystiolaeth i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad.

# PRIF GANFYDDIADAU

KF1. Mae ffilmio yng Nghaerdydd yn ffynnu, gan elwa o dwf cryf ar draws y Diwydiannau Creadigol, lleoliadau amrywiol ac hygyrch yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, seilwaith, cyfleusterau a chysylltedd da, a phrisiau cystadleuol, i gyd wedi'u hategu gan amgylchedd polisi a strategol cefnogol ar bob lefel o lywodraeth.

KF2. Mae ffilmio yn cyflwyno manteision economaidd a diwylliannol i Gaerdydd a'r rhanbarth, gan gyflogi nifer sylweddol o bobl, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a lleoliad gwaith, a rhoi hwb i dwristiaeth drwy godi ymwybyddiaeth o Gaerdydd yn gyffredinol yn ogystal â drwy dwristiaeth ffilm-benodol.

**Swyddfeydd Ffilm**

KF3. Mae Swyddfeydd Ffilm Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o wasanaethau i gynghori, cefnogi ac arwain ffilmio yn eu hardaloedd. Mae maint y gwasanaethau a ddarperir yn amrywio yn dibynnu ar lefel yr adnoddau sydd ar gael, gyda'r rhai â’r swm mwyaf o adnoddau yn gweithio'n helaeth i annog a gwneud y mwyaf o ffilmio yn eu hardaloedd yn ogystal â darparu'r gwasanaethau sylfaenol o gynghori, cyfeirio a gweinyddu ceisiadau ffilmio.

KF4. Mae Swyddfa Ffilm Caerdydd yn canolbwyntio ar roi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad, gan gyfeirio at adrannau a phartneriaid eraill yn ôl yr angen. Gan mai dim ond un swyddog cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu'r gwasanaeth hwn, mae ganddo lai o adnoddau o gymharu â swyddfeydd ffilm eraill yr edrychwyd arnynt yn ystod yr Ymchwiliad hwn – Caerfaddon, Birmingham, Bryste, Enfield, Lerpwl a Manceinion – ac o ganlyniad mae'n ymgymryd â llai o waith marchnata a hyrwyddo a llai o waith datblygu sgiliau.

KF5. Derbyniodd yr Ymchwiliad hwn adborth da iawn ynglŷn â Swyddog Ffilm Caerdydd, gyda'r mwyafrif helaeth o gyfraniadau ysgrifenedig a llafar yn pwysleisio eu parch uchel at broffesiynoldeb, cymwynasgarwch a chyfeillgarwch y gwasanaeth a dderbyniwyd.

KF6. Mae’r adran priffyrdd berthnasol mewn awdurdodau lleol yn ymdrin â rheoli traffig a pharcio ar gyfer ffilmio. Roedd gan y swyddfeydd ffilm yr edrychwyd arnynt yn ystod yr Ymchwiliad hwn lefelau amrywiol o ymwneud yn y broses hon, gan amrywio o ddim ond cyfeirio at yr adran berthnasol, i ddelio ag ymholiadau cychwynnol, derbyn ceisiadau drwy eu pyrth ar-lein, a rhoi cyngor manwl.

**Rheoli Rhwydwaith**

KF7. Yng Nghaerdydd, mae Rheoli Rhwydwaith yn ymdrin â cheisiadau am reoli traffig a pharcio; mae'r Swyddfa Ffilm yn cyfeirio pob ymholiad atynt. Mae gan Rheoli Rhwydwaith dîm penodol, wedi'i staffio gan staff achlysurol, ar gyfer ceisiadau rheoli traffig a pharcio sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a ffilmio. Mae’r staff yn cynnal ymweliadau safle, yn paratoi gwaith papur perthnasol, ac yn darparu'r gwasanaeth ar y set, gyda staff y Cyngor yn cymeradwyo'r gwaith papur. Mae'r staff achlysurol ar y set yn cynnwys staff y Cyngor a swyddogion yr heddlu sydd wedi ymddeol, myfyrwyr, y rhai sy'n chwilio am brofiad gwaith, a staff presennol y Cyngor sy'n gweithio yn ystod eu hamser i ffwrdd; mae'r holl staff wedi'u hyfforddi i weithio ar y briffordd gyhoeddus ac i fod â sgiliau gofal cwsmeriaid rhagorol, gyda'r rhai sy'n cyflawni’r rolau arweiniol â'r profiad mwyaf. Tynnodd y Pennaeth Trafnidiaeth sylw at y ffaith bod swm y gwaith a gynhyrchir gan ffilmio a digwyddiadau wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y byddai'n ddefnyddiol cael staff parhaol yn Rheoli Rhwydwaith i ymdrin â gweinyddu a phrosesu ymweliadau safle, gwaith papur a gorchmynion cyfreithiol.

KF8. Derbyniodd yr Ymchwiliad hwn adborth da iawn ynglŷn â'r staff gweithredol rheng flaen sy'n darparu'r gwasanaethau ar y set; roedd y cyfranwyr yn awyddus i bwysleisio eu bod yn ddefnyddiol, yn gwrtais, yn wybodus ac yn canolbwyntio ar atebion.

KF9. Derbyniodd yr Ymchwiliad hwn adborth cymysg ynglŷn â'r gwasanaethau Rheoli Rhwydwaith cyffredinol, gyda chyfranwyr yn cymharu eu profiadau yng Nghaerdydd â'u profiadau o weithio gyda gwasanaethau rheoli traffig a pharcio awdurdodau lleol mewn mannau eraill. Nododd yr Aelodau fod cwynion yn ymwneud yn bennaf â Rheoli Rhwydwaith yn cadw at ofynion deddfwriaethol yn fanwl. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i ddarparu hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog, gan arwain at gostau cyfieithu a hysbysebu ychwanegol. Roedd rhai cyfranwyr yn gwerthfawrogi'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghaerdydd ac yn hoffi cael staff y Cyngor yn ymgymryd â’r gwasanaeth rheoli traffig a pharcio, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn galluogi penderfyniadau cyflym i gael eu gwneud mewn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg. Byddai'n well gan gyfranwyr eraill ddefnyddio cwmnïau rheoli traffig preifat i reoli'r broses yn gyffredinol, gan nodi cost a chyfleustra fel y prif ffactorau. Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r rhesymau a roddwyd i'r Ymchwiliad ynglŷn â pham y symudodd y Cyngor i ffwrdd o ganiatáu i gwmnïau rheoli traffig preifat weithredu yng Nghaerdydd, er ein bod yn cydnabod bod awdurdodau lleol eraill yn caniatáu defnyddio'r cwmnïau hyn yn ôl pob golwg heb y canlyniadau a'r materion a godwyd gyda'r Aelodau.

KF10. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at y ffaith y byddai'n ddefnyddiol i wefannau'r Swyddfa Ffilm a'r Cyngor nodi'r broses o ran rheoli traffig a pharcio ar gyfer ffilmio, gan gynnwys y broses a ddilynir yng Nghaerdydd a'r rhesymeg dros ddefnyddio Gorchmynion Rheoli Traffig Dros Dro yn hytrach na Hysbysiadau Rheoli Traffig Dros Dro, Stopiwch ac Ewch a Stopiwch a Stopiwch.

Byddai hyn yn rhoi eglurder ymlaen llaw, gan gynorthwyo cynhyrchwyr a rheolwyr lleoliad wrth gynllunio cyllidebau ac amserlenni ffilmio, yn enwedig y rhai sy'n newydd i ffilmio yng Nghaerdydd.

**Ffioedd a Thaliadau**

KF11. Clywodd yr Aelodau fod y ffioedd a'r taliadau a godir gan y Cyngor yn cael eu gosod yn flynyddol fel rhan o broses gosod cyllideb y Cyngor. Mae nifer o ffioedd a thaliadau, gan gynnwys ffioedd trwydded ffilmio gyda drôn ac ar stryd, taliadau rheoli traffig a pharcio, a thaliadau lleoliad. Clywodd yr Aelodau fod y ffioedd trwydded ffilmio gyda drôn ac ar stryd yn cael eu defnyddio i helpu i wrthbwyso costau'r Swyddfa Ffilm, a bod y taliadau rheoli traffig a pharcio yn cael eu gosod i dalu costau ond nid i wneud elw. Mae’r Aelodau'n nodi bod rhai o'r swyddfeydd ffilm yr edrychwyd arnynt yn ystod yr Ymchwiliad hwn hefyd yn codi ffioedd gweinyddol ychwanegol, sy'n helpu i dalu costau swyddfa ffilm. Mae'r Aelodau hefyd yn nodi, ers Covid, nad yw ffi trwydded ffilmio ar stryd wedi’i chodi ar gwmnïau sydd â safle yng Nghaerdydd.

KF12. Mae'r Aelodau'n cydnabod bod angen cael cydbwysedd o ran denu a chynnal ffilmio, gwrthsefyll cystadleuaeth gan awdurdodau lleol eraill, a thrwy hynny darparu gwaith i'r Diwydiannau Creadigol sydd wedi'u lleoli yma, cadwyni cyflenwi, lletygarwch, cyfleusterau a thwristiaeth, tra hefyd yn sicrhau bod y costau i'r Cyngor, ac felly trigolion Caerdydd, mor isel â phosibl.

KF13. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at y ffaith y byddai'n fuddiol i wefannau’r Swyddfa Ffilm a'r Cyngor nodi'r holl ffioedd a thaliadau safonol sy'n gysylltiedig â ffilmio, fel gosod conau, goddefebau parcio, strwythurau dros dro ar y briffordd ac ati; ar hyn o bryd, dim ond y costau ar gyfer trwyddedau a Gorchymyn Rheoli Traffig Dros Dro sy'n cael eu dangos. Byddai gosod yr holl ffioedd a thaliadau safonol yn rhoi eglurder, yn galluogi tryloywder, ac yn sicrhau cwsmeriaid bod cysondeb yn y gyfundrefn ffioedd a thaliadau. Yn ogystal, dywedodd cyfranwyr y byddai'n ddefnyddiol esbonio bod costau pwrpasol yn cael eu rhoi ymlaen llaw ar ôl ymweliad safle i ganfod gofynion. Mae’r Aelodau'n credu y byddai hefyd yn ddefnyddiol tynnu sylw at y ffaith bod y ffioedd a'r taliadau yn seiliedig ar adennill costau yn hytrach na chynhyrchu incwm.

KF14. O ran taliadau lleoliad, clywodd yr Aelodau gan lawer o gyfranwyr y byddai'n fuddiol i'r Cyngor gael 'cerdyn ardrethi' ar gyfer llogi lleoliadau cyngor, a haenir yn ôl cyllideb gynhyrchu i adlewyrchu'r amrywiaeth enfawr mewn cyllidebau ffilmio. Unwaith eto, byddai hyn yn rhoi eglurder a thryloywder, ac yn cynorthwyo wrth gynllunio cyllidebau ffilmio, gan ddod â'r Cyngor yn unol â sefydliadau gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Genedlaethol

Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Cadw, yn ogystal â nifer o swyddfeydd ffilm awdurdodau lleol eraill lle mae costau'n amrywio yn ôl maint y cynhyrchiad.

KF15. Clywodd yr Aelodau y dylid ystyried archwilio cyfundrefn ffioedd a thaliadau ar wahân ar gyfer cynyrchiadau ffilm sy'n dod â busnes ailadroddus hirdymor i Gaerdydd, fel Casualty, o ystyried y manteision y mae'r rhain yn eu cyflwyno i economi Caerdydd a'r rhanbarth cyfagos a'r ecosystem ffilm.

KF16. Fel rhan o'r Ymchwiliad hwn, ceisiodd yr Aelodau ddeall yr arian a godir gan y gwahanol ffioedd a thaliadau a godir gan y Cyngor am ffilmio yng Nghaerdydd. Mae'r Aelodau'n ymwybodol bod cod cost cyllideb 'Mynediad ar gyfer Ffilmio' penodol i ddal taliadau lleoliad, bod Rheoli Rhwydwaith yn defnyddio is-god ar gyfer ffilmio yn ei god cost cyllideb Digwyddiadau cyffredinol i alluogi staff i olrhain gwaith ffilmio, a bod trwyddedau ffilm yn cael eu cofnodi ar system cronfa ddata a ddefnyddir gan y mwyafrif o swyddfeydd ffilm. Fodd bynnag, canfu'r Aelodau nad oedd y wybodaeth a roddwyd gan y tair ffynhonnell hyn yn cyd-fynd, gyda defnydd anghyson o ganolfan gostau'r gyllideb 'Mynediad ar gyfer Ffilmio'.

**Annog Ffilmio**

KF17. Clywodd yr Ymchwiliad hwn sawl enghraifft o weithio effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd i annog ffilmio yng Nghaerdydd, gan weithio gyda'i gilydd a chyda'r ddinas-ranbarth i greu'r amodau cywir i feithrin twf y Diwydiannau Creadigol, hyrwyddo arloesedd, a chroesawu ffilmio.

KF18. Clywodd yr Ymchwiliad hwn, er mwyn annog ffilmio ymhellach, fod angen i Gaerdydd gryfhau cydweithio â rhanddeiliaid, buddsoddi mewn marchnata, a gwella gwefan y Swyddfa Ffilm. Byddai cryfhau cydweithio yn helpu i alinio'r hyn y mae Caerdydd yn ei gynnig â gofynion y diwydiant drwy rannu gwybodaeth ac arfer gorau, gwella datblygiad sgiliau a rhoi rhybudd am ffilmio sydd ar ddod. Byddai buddsoddi mewn marchnata yn hyrwyddo potensial ffilmio Caerdydd. Dylai gwefan y Swyddfa Ffilm roi manylion lleoliadau'r Cyngor, bod â dolenni i gatalog lleoliadau a chronfeydd data criwiau a chyfleusterau Cymru Greadigol a Sgrîn Cymru, a bod â mwy o wybodaeth am ffilmio blaenorol yng Nghaerdydd; roedd gwefan Swyddfa Ffilm Bryste wedi creu argraff arbennig ar yr Aelodau yn hyn o beth.

KF19. Cododd sawl cyfrannwr bwysigrwydd cael safleoedd uned priodol ar gael, ger lleoliadau ffilm rheolaidd a hefyd i alluogi gwefru dros nos. Tynnodd un cyfrannwr sylw hefyd at y ffaith bod angen llety addas i gynnal safleoedd cynhyrchu, heb orfod ymrwymo i osodiadau 6 mis neu brydlesi hirach.

**Gwneud y gorau o fanteision ffilmio**

KF20. Clywodd yr Ymchwiliad hwn am y manteision economaidd a diwylliannol niferus y mae ffilmio yn eu cyflwyno i Gaerdydd a'r rhanbarth, gan gynnwys gwaith i sicrhau y gwneir y gorau o'r rhain er budd trigolion.

KF21. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod cynlluniau hyfforddi a phrofiad gwaith a bod gwaith eisoes yn digwydd gydag Addewid Caerdydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith plant ysgol o yrfaoedd a chyfleoedd yn y sector ffilm.

KF22. Clywodd yr Aelodau fod Llundain wedi buddsoddi mewn grid gwefru trydan gwyrdd ar gyfer safleoedd uned, bod Lerpwl yn gwneud yr un peth, a bod gwaith tuag at hyn wedi dechrau yng Nghymru, gyda Sefydliad Ffilm Prydain, Ffilm Cymru a Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth gwmpasu ar safleoedd â photensial uchel yn Ne Cymru gyda'r bwriad o fabwysiadu model tebyg.

# ARGYMHELLION

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad hwn, mae Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

R1. O fewn 3 mis, gwella gwefan y Swyddfa Ffilm drwy gynnwys y canlynol:

a. Cyfeirio at Cymru Greadigol a Sgrin Cymru
b. Gwybodaeth fanylach am ffilmio yng Nghaerdydd
c. Cwestiynau cyffredin ynghylch prosesau rheoli traffig a pharcio, gan gynnwys rhesymeg dros orchmynion rheoli traffig dros dro yn hytrach na hysbysiadau rheoli traffig dros dro, Stopiwch ac Ewch, Stopiwch a Stopiwch, a bod gofyniad deddfwriaethol ar gyfer hysbysiadau dwyieithog
d. Ffioedd a thaliadau safonol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r rhain yn creu elw, fel y cytunwyd yn y broses gosod cyllideb flynyddol
e. Esboniad y gallai fod taliadau ychwanegol pwrpasol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r rhain yn creu elw.

*Cefnogir gan Brif Ganfyddiad (PG) 10, PG13 a PG18*

R2. O fewn 6 mis, gwella gwefan y Swyddfa Ffilm drwy gynnwys y canlynol:

a. Cronfa ddata o leoliadau cyngor, gan gynnwys lleoliadau gwag fel ysgolion gwag ac adeiladau swyddfa.

*Cefnogir gan PG18*

R3. O fewn 3 mis, gwella'r adran Rheoli Rhwydwaith ar wefan y Cyngor drwy gynnwys y canlynol:

a. Cwestiynau cyffredin ynghylch prosesau rheoli traffig a pharcio, gan gynnwys rhesymeg dros orchmynion rheoli traffig dros dro yn hytrach na hysbysiadau rheoli traffig dros dro, Stopiwch ac Ewch, Stopiwch a Stopiwch, a bod gofyniad deddfwriaethol ar gyfer hysbysiadau dwyieithog
b. Ffioedd a thaliadau safonol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r rhain yn creu elw, fel y cytunwyd yn y broses gosod cyllideb flynyddol
c. Esboniad y gallai fod taliadau ychwanegol pwrpasol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r rhain yn creu elw.

*Cefnogir gan PG10 a PG13*

R4. O fewn 3 mis, archwilio cyflwyno cerdyn ardrethi ar gyfer lleoliadau cyngor, gyda ffioedd a thaliadau'r Cyngor wedi'u haenu yn ôl cyllideb gynhyrchu, ac ystyried y wybodaeth hon fel rhan o broses gyllidebol 2026-27.
*Cefnogir gan PG14*

R5. O fewn 6 mis, archwilio cyfundrefn ffioedd a thaliadau ar wahân ar gyfer cynyrchiadau ffilm sy'n dod â busnes ailadroddus hirdymor i Gaerdydd, gyda chostau llai i adlewyrchu'r manteision y mae'r rhain yn eu cynnig i'r economi a'r ecosystem ffilm.
*Cefnogir gan PG15*

R6. O fewn 6 mis, adolygu ac asesu effeithiolrwydd atal y ffi trwydded ffilmio ar stryd ar gyfer cwmnïau lleol.
*Cefnogir gan PG11*

R7. O fewn 3 mis, atgoffa pob cyfarwyddiaeth o'r angen i ddefnyddio canolfan gostau’r gyllideb 'Mynediad ar gyfer Ffilmio' wrth brosesu taliadau lleoliad ffilmio, er mwyn galluogi'r rhain i gael eu holrhain.
*Cefnogir gan PG16*

R8. O fewn 3 mis, archwilio'r posibilrwydd y bydd baner awtomatig ar system canolfan gostau'r Cyngor sy'n awgrymu defnyddio canolfan gostau’r gyllideb 'Mynediad ar gyfer Ffilmio' pan fydd y testun a roddir i mewn yn cynnwys geiriau perthnasol fel ffilm, ffilmio, teledu, drama ac ati.
*Cefnogir gan PG16*

R9. O fewn 6 mis, ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn y Swyddfa Ffilm ar gyfer rheoli ceisiadau ffilmio ac a oes angen adnoddau ychwanegol i ymdrin â’r agweddau gweinyddol ar geisiadau ffilm, yn unol â lefelau adnoddau Swyddfeydd Ffilm mewn awdurdodau lleol Dinas Craidd eraill.
*Cefnogir gan PG3, PG4, a PG6*

R10. O fewn 6 mis, archwilio'r adnoddau sydd ar gael yn Rheoli Rhwydwaith ar gyfer ymdrin â gweinyddu sy'n gysylltiedig â ffilm, prosesu ymweliadau safle, gwaith papur a gorchmynion cyfreithiol ac a oes angen adnoddau ychwanegol, parhaol, i ymdrin â'r rhain.

*Cefnogir gan PG7*

R11. O fewn 6 mis, cwrdd â rhanddeiliaid i archwilio'r ffordd orau o gryfhau gwaith cydweithredol i annog ffilmio a gwneud y mwyaf o'r manteision economaidd a diwylliannol i drigolion lleol.
*Cefnogir gan PG18, PG20, PG21 a PG22*

R12. O fewn 6 mis, archwilio'r arfer da, ynghylch marchnata a hyrwyddo ffilmio, a nodwyd yn yr Adroddiad Ymchwil sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, ac ystyried gweithredu'r elfennau hynny sydd o fudd i Gaerdydd.
*Cefnogir gan PG4, PG17 a PG18*

R13. O fewn 6 mis, cwrdd â rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ynghylch cyfleusterau gwefru grid gwyrdd safleoedd uned.
*Cefnogir gan PG18 a PG22*

R14. O fewn 6 mis, ystyried a oes gan unrhyw adeiladau'r Cyngor le priodol i'w gynnig fel safleoedd unedau cynhyrchu, er enghraifft Neuadd y Sir.
*Cefnogir gan PG19*

# Aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant

Y Cynghorydd Peter Wong (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rodney Berman

Y Cynghorydd Catriona Brown-Reckless

Y Cynghorydd Peter Jenkins

Y Cynghorydd Owen Jones

Y Cynghorydd Margaret Lewis

Y Cynghorydd Sara Robinson

**Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd**
**Ystafell 283, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**Ffôn: 029 2087 3506 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk**
**h. 2025 Cyngor Sir Caerdydd**